# PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

# STRATEGAETH DAI AR GYFER POBL DDUON A LLEIAFRIFOEDD ETHNIG YNG NGHYMRU: YSTYRIED Y DDOGFEN YMGYNGHORI

**Pwrpas**:

1. Gwahoddir y Pwyllgor i drafod a chyflwyno sylwadau ar y ddogfen ymgynghori drafft ar fabwysiadu Strategaeth Dai ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (DLlE) yng Nghymru a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer ymgynghori a monitro.

2. Mae'r mater yn rhan o'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ymgymryd ag ef yn y dyfodol.

**Crynodeb:**

3. Mae'r ddogfen ymgynghori drafft yn disgrifio'r dull strategol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu'i ddefnyddio i fynd ati i nodi a diwallu anghenion tai DLlE fel rhan o'i Strategaeth Dai Genedlaethol fwy cyffredinol. Mae'r ddogfen ymgynghori "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru", sy'n nodi argymhellion y Cynulliad ar gyfer polisi tai yng Nghymru yn cyfeirio'n benodol at gyfle cyfartal ym maes tai ac yn cydnabod bod angen camu ymlaen â'r agenda dai DLlE.

4. Mae'r strategaeth DLlE yn darparu fframwaith cenedlaethol y gellir ei gymhwyso gan bob landlord cymdeithasol (awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig) ym mhob ardal yng Nghymru, waeth pa gyfran o'r boblogaeth leol sy'n lleiafrifoedd ethnig. Ei nod yw helpu landlordiaid cymdeithasol i adeiladu ar y gwasanaethau sy'n bodoli eisoes, datblygu mentrau a gwasanaethau newydd lle bo'n briodol, a sicrhau cyfle cyfartal ac awdurdodi unigolion a chymunedau DLlE.

**Amseru:**

5. Caiff y ddogfen ymgynghori ei dosbarthu i bob landlord cymdeithasol, i bob

mudiad sy’n cynrychioli DLlE ac i bob sefydliad/cymdeithas tai, a hefyd i bob un a fynychodd gynhadledd y Cynulliad/Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol "Chwalu’r Ffiniau" ar 25 Hydref 2000. Mae’n rhaid i unigolion a chymunedau DLlE fod yn rhan o’r gwaith o ddatblygu’r Strategaeth hon o’r cychwyn cyntaf. Er y bydd y Cynulliad yn ymgynghori’n uniongyrchol â chynrychiolwyr DLlE, gofynnir hefyd i landlordiaid cymdeithasol weithio gyda’u tenantiaid a’u grwpiau cymuned lleol i sicrhau bod pobl yn cymryd rhan ar lefel leol.

6. Cyflwynir y ddogfen i’r Pwyllgor fel bod modd ymgorffori ei safbwynt yn y ddogfen ymgynghori drafft cyn iddi gael ei chyhoeddi ar 5 Ebrill ar gyfer cyfnod ymgynghori deuddeg mis.

**Cefndir:**

7. Datblygwyd y strategaeth DLlE pan oedd pryderon ynghylch i ba raddau y mae awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig Cymru ar hyn o bryd yn diwallu anghenion tai grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae’r strategaeth hefyd yn amserol yng ngoleuni adroddiad Ymchwiliad Lawrence (MacPherson) a danlinellodd yr angen am amcan cyffredinol i wneud i ffwrdd â rhagfarn ac anfantais hiliol a dangos tegwch ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus.

8. Mae’r strategaeth DLlE hefyd yn ceisio mynd i’r afael â chanfyddiadau’r adroddiad a gomisiynwyd gan y Cynulliad "O’r Cyrion i’r Canol – Asesu’r Angen am Strategaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru" gan Mutale Nyoni. Er bod y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol wedi mabwysiadu polisïau ar gyfle cyfartal, gwelodd yr adroddiad mai nifer fach, yn unig, sydd wedi mabwysiadu strategaethau penodol i ddiwallu anghenion tai DLlE. Mae’r Strategaeth DLlE hefyd yn amcanu at roi argymhellion y Grwp Tasg Strategaeth Dai Genedlaethol ar waith ynghyd â’r cynigion ar gyfle cyfartal yn y ddogfen ymgynghori "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru".

9. Mae’r ddogfen ymgynghori wedi’i datblygu ar y cyd â’r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Mutale Nyoni ac Uned Polisi Cydraddoldeb y Cynulliad.

10. Mae’r ymgynghoriad yn ceisio barn ar gynnwys 11 prif faes ar gyfer gweithredu yn y strategaeth DLlE:

- Datblygu a dosbarthu canllawiau ac arferion da;
- Nodi anghenion tai DLlE;
- Datblygu’r ddarpariaeth dai;

- Cyflwyno gwasanaethau;
- Strategaethau tai DLlE lleol;
- Mynd i'r afael ag aflonyddwch hiliol;
- Awdurdodi pobl o gymunedau DLlE;
- Cyfathrebu ac ymgynghori;
- Datblygu rhwydweithiau a meithrin partneriaethau;
- Cefnogi sefydliadau tai a arweinir gan DLlE.

11. Argymhellir mabwysiadu dull partneriaeth i roi'r Strategaeth DLlE ar waith, gan gynnwys asiantaethau allweddol megis y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Sefydliad Tai Siartredig Cymru, Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru a Ffederasiwn Tenantiaid Cymru. Bydd y sefydliadau hyn hefyd yn cael eu gwahodd i drefnu eu bod yn cael eu cynrychioli ar y Grwp Adolygu Strategaeth Dai DLlE a fydd yn adolygu cynnydd a llwyddiant y Strategaeth DLlE yn flynyddol.

**Cydymffurfio:**

12. O dan Adrannau 36 ac 169 o Ddeddf Tai 1996, gall y Cynulliad roi canllawiau i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol ynghylch dyrannu tai a materion rheoli. Mae'r pwerau perthnasol o dan Ddeddf Tai 1996 wedi'u dirprwyo i Weinidog y Cynulliad.

**Themâu trawsbynciol:**

13. Mae'r strategaeth DLlE yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Cynulliad o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976, Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 ac o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1999 mewn perthynas â chyflawni'i ddyletswyddau gan roi ystyriaeth ddyledus i egwyddorion cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy. Mae'r strategaeth DLlE yn gwbl gyson hefyd â'r tair prif thema yn *Gwell Cymru* – datblygu cynaliadwy, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a chyfle cyfartal.

**Camau i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai eu cymryd:**

14. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi a chyflwyno sylwadau ar y ddogfen ymgynghori drafft ar fabwysiadu Strategaeth Dai ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (DLlE) yng Nghymru. Yn arbennig, gofynnir i'r Pwyllgor wneud sylwadau ar y 11 prif faes ar gyfer gweithredu yn y Strategaeth DLlE drafft; ar y trefniadau ymgynghori arfaethedig ac ar sefydlu'r Grwp Adolygu Strategaeth Dai DLlE arfaethedig.

**Enw cyswllt:**

15 Lynne Edwards, Y Gyfarwyddiaeth Dai, est. 6793.